**<u>BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**

**ADRODDIAD I:** **<u>THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**

**PWNC:** **<u>PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL - DYDD LLUN, 7 MEHEFIN 2021 DYDD LLUN, 7 MEHEFIN 2021</u>**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: M. MOORE (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: C. Meredith (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
M. Cook
M. Day
P. Edwards
S. Healy
W. Hodgins
J. Holt
J. C. Morgan
L. Parsons
B. Summers
L. Winnett

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar hyn o bryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd T. Sharrem. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u>**<br><br>CYTUNWYD y byddai cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol yn parhau i gael eu cynnal am 10.00 a.m. | |
| No. 5 | **<u>COFNODION PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| No. 6 | **<u>DALEN WEITHREDU</u>**<br><br>Nid oes unrhyw gamau gweithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021 | |
| No. 7 | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH 2021-22 ARFAETHEDIG Y PWYLLGOR CRAFFU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i Flaenraglen Gwaith arfaethedig y Pwyllgor Craffu ar gyfer 2021-22.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y cynnydd yn y targedau ailgylchu a mynegodd gonsyrn am yr effaith ar gapasiti o fewn y gwasanaeth. Awgrymodd y dylid adolygu'r cynlluniau wrth gefn mewn rhai rhannau o'r system a hefyd adolygiad o waith trwsio tyllau ym mhriffyrdd y Fwrdeistref.<br><br>Gofynnodd Aelod arall am ddiweddariad ar bori anghyfreithlon a dod â'r diweddariad ar orfodaeth parcio sifil ymlaen o fis Tachwedd.<br><br>Mewn ymateb cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y rhoddir diweddariad ar strategaeth ailgylchu y Cyngor i'r Pwyllgor Craffu maes o law ac y gallai hyn o bosibl gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer y gwasanaeth. | |

Soniodd Arweinydd Tîm Gwasanaethau Cymdogaeth hefyd y caiff darn o waith ei wneud gyda WRAP a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn edrych ar gynnydd y Strategaeth ac oes angen unrhyw addasiadau. Yn nhermau capasiti o fewn y gwasanaeth, dywedodd y bu cynnydd sylweddol wrth gasglu gwastraff gwyrdd oherwydd tywydd gwael diweddar a chadarnhaodd y defnyddiwyd criwiau ychwanegol i ateb y galw hwnnw.

Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar risg rheoli llifogydd yng ngoleuni'r llifogydd a gafwyd yn Llanhiledd yn gynharach yn y flwyddyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod arall am adeiladu'r Depot Canolog newydd, cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Strydlun y cyflwynir adroddiad llawn ar yr achos busnes amlinellol i'r Pwyllgor Craffu ar 19 Gorffennaf 2021.

Dywedodd Aelod arall ei fod yn siomedig gyda'r Flaenraglen Gwaith. Cyfeiriodd at gais Aelod am ddiweddariad ar risg rheoli risg a dywedodd fod angen adroddiad mwy manwl ar gyflwr cwlfertau a draeniau yn y Fwrdeistref. Cyfeiriodd hefyd at gau'r Ganolfan Ddinesig a theimlai y dylai'r Pwyllgor Craffu ystyried adleoliad yr Adran Gwasanaethau Technegol a chynlluniau a chofnodion cysylltiedig. Cytunodd hefyd fod angen adroddiad ar waith ar dyllau yn y ffyrdd a hefyd adroddiad ar dipio'n anghyfreithlon.

Daeth i ben drwy ddweud fod angen brys am adolygiad o bolisi'r Cyngor yng nghyswllt tai aml-feddiannaeth.

Mewn ymateb cadarnhaodd Aelod fod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau ynghylch canllawiau ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer tai amlfeddiannaeth. Gofynnodd Aelod am eglurhad ar gontract rheoli pla y Cyngor a chadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Diogelu'r Amgylchedd y byddai'r contract presennol yn rhedeg tan ddiwedd mis Mawrth 2022.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y caiff yr holl faterion a godwyd gan Aelodau eu trafod gyda Swyddogion.

CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gytuno ar Flaenraglen Gwaith 2021/22.

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 8** | **<u>RHAGLEN GWAITH CYFALAF PRIFFYRDD 2021 – 2022</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd yr Uwch Beiriannydd Priffyrdd yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd y rhaglen gwaith cyfalaf priffyrdd 2017/2021 a chyflwynodd opsiynau o amgylch rhaglen gwaith y dyfodol 2021/22.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau allweddol ynddo.<br><br>Gofynnodd Aelod am eglurhad am y ffigur o £405k ar gyfer seilwaith bysus a amlygir yn adroddiad 2.12 yr adroddiad.<br><br>Esboniodd y Rheolwr Peirianneg y defnyddid tua £250k o'r arian mewn ymateb i raglen Trafnidiaeth Ymatebol Integredig Llywodraeth Cymru, a defnyddir tua £150k i uwchraddio'r seilwaith safleoedd bws presennol, sy'n barhad o raglen eleni. Anogodd Aelodau i gysylltu â Swyddogion gydag unrhyw broblemau yn gysylltiedig â safleoedd bws o fewn eu wardiau.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan Aelod am y Gronfa Trafnidiaeth Lleol, dywedodd y Swyddog fod y grantiau a restrir yn adran 2.12 yr adroddiad yn grantiau Llywodraeth Cymru gyda meini prawf penodol ar gyfer cyllid. Esboniodd fod y Grant Teithio Llesol yn gynllun cyllido gwahanol i annog pobl i gerdded/seiclo i'r ysgol neu waith ac yn y blaen.<br><br>Gofynnodd Aelod os oes unrhyw arian yn ddyledus gan yr Adran Addysg fel canlyniad i'r gwaith priffyrdd a wnaed fel rhan o ddatblygu'r ysgol newydd yn Six Bells.<br><br>Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Technegol y cafodd yr arian ei ad-dalu'n llawn a'i roi yn y gyllideb cyfalaf wrth gefn. Cadarnhaodd hefyd y cafodd y Cyngor ei ad-dalu'n llawn am y gwaith yn gysylltiedig gyda'r difrod storm.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y rhestr o ffyrdd preswyl blaenoriaeth yn adran 3.1 (opsiwn 1) a dywedodd y credai fod ffyrdd yn ei ward mewn cyflwr gwaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Technegol fod y matrics yn galluogi adolygiad annibynnol a gwrthrychol o ffyrdd yn defnyddio tystiolaeth a data, yn hytrach na barn bersonol. Fodd bynnag, byddai'n hapus i gael trafodaeth bellach gydag Aelodau os teimlent fod ffyrdd oedd yn haeddu eu hystyried ymhellach, cyhyd â bod y ffyrdd hynny o werth tebyg ac yn gyson gyda'r ethos o sgorio matrics.<br><br>Holodd Aelod arall am ddosbarthiad rhai ffyrdd a dywedodd, er ei fod yn derbyn y matrics, y teimlai ei fod ychydig yn wallus ac y dylid ei adolygu wrth symud ymlaen yn nhermau dirprwyo pwyntiau ar wahanol ffyrdd o fewn y Fwrdeistref.<br><br>Cytunodd Aelod gyda sylwadau'r Aelod am ddosbarthiad ffyrdd a dywedodd y byddai esboniad o'r dull yn fanteisiol. Dywedodd hefyd y cafodd nifer o ffyrdd o fewn y Fwrdeistref wyneb newydd nifer fawr o weithiau dros y blynyddoedd a mynegodd gonsyrn am 'grynhoi'. Cyfeiriodd yr Aelod wedyn at ddiogelwch priffyrdd ac awgrymodd y dylid ymchwilio cyllid posibl o Llwybrau Diogel i'r Ysgol, ac y dylid cynnwys hyn yn y Flaenraglen Gwaith. Fodd bynnag, teimlai'r Aelod fod y gwaith a gynigir yn yr adroddiad yn rhoi gwerth am arian.<br><br>Gofynnodd Aelod arall os y byddai'n fwy effeithlon o ran cost rhoi troshaen wyneb ar rai ffyrdd yn hytrach na rhoi wyneb newydd llawn.<br><br>Mewn ymateb esboniodd yr Uwch Beiriannydd Priffyrdd, er fod troshaen wyneb yn gorchuddio arwynebedd mawr, nad oedd yn para mor hir â rhoi wyneb newydd llawn sy'n rhoi gwell gwerth am arian, yn arbennig mewn ardaloedd preswyl.<br><br>Dywedodd yr Aelod y gwyddai am nifer o ffyrdd a fanteisiodd o droshaen wyneb oedd wedi para am flynyddoedd lawer.<br><br>Cytunodd y Swyddog fod rhai ffyrdd wedi manteisio o droshaen wyneb, fodd bynnag, yn seiliedig ar brofiad roedd plaen llawn a rhoi wyneb newydd llawn yn fwy addas ar gyfer ffyrdd preswyl.<br><br>Gofynnodd Aelod os yw'r Cyngor yn mynd ar ôl ad-dalu costau atgyweirio rhwystrau diogelwch/goleuadau stryd fel canlyniad i ddamweiniau car. | |

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Priffyrdd a Chynnal a Chadw y Gaeaf y bu'n anodd cael manylion gyrwyr, fodd bynnag mae'r Cyngor yn awr yn cyflogi gwasanaeth cwmni trydydd parti i gynorthwyo yn y broses a gobeithio y bydd yr Cyngor yn fwy llwyddiannus wrth geisio hawliadau wrth symud ymlaen.

Holodd aelod am y dull a ddefnyddir gan y Cyngor ar gyfer trwsio tyllau mewn ffyrdd. Dywedodd fod gwaith a wnaed gan ymgymerwyr statudol, yn ei farn ef, o safon uwch na'r hyn a wneir gan y Cyngor ac yn ymddangos i bara'n hirach.

Mewn ymateb cadarnhaodd y Swyddog fod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Tîm er mwyn gwella'r maes gwaith hwn mewn dull effeithlon o ran cost. Yn nhermau'r dull a ddefnyddiwyd, dywedodd nad yw 'traws-fandio' yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ond bod costau seliwr chwistrell arall yn cael eu sicrhau i'w profi maes o law.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach cadarnhaodd yr Uwch Beiriannydd Priffyrdd, yn amodol ar gymeradwyo'r adroddiad, y gobeithiai y gallai'r gwaith ddechrau ganol mis Gorffennaf.

Yng nghyswllt gwaith a wnaed gan ymgymerwyr statudol, gofynnodd Aelod os yw hyn yn cael eu harchwilio gan y Cyngor.

Cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Priffyrdd a Chynnal a Chadw Gaeaf y caiff yr holl waith a gofrestrwyd gan gwmnïau cyfleustod eu harchwilio gan y Cyngor, a bod proses yn ei lle ar gyfer unioni unrhyw waith diffygiol. Cadarnhaodd y cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gydag ymgymerwyr statudol ac awdurdodau lleol eraill yng nghyswllt y rhaglen waith, a rhoddwyd embargo o 2 flynedd am waith a drefnwyd ar ffyrdd a gafodd wyneb newydd, fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei godi ar gyfer unrhyw waith argyfwng y gellid fod ei angen.

Dilynodd trafodaeth am Grŵp Gorchwyl a Gorffen posibl pan awgrymodd y Pennaeth Gwasanaethau Technegol y dylid cynnull Briffiad Aelodau i gynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn cynnal a chadw ein priffyrdd, yn cynnwys tyllau mewn ffyrdd, a hefyd yn rhoi cyfle i adolygu'r matrics.

Cytunodd Aelodau, fodd bynnag, a dweud y gallai fod angen Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn disgwyl canlyniad y sesiwn Briffio.

| | | |
|---|---|---|
| | Cadarnhaodd y Cadeirydd y gwneir trefniadau i gynnal y Briffiad Aelodau cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell cefnogi Opsiwn 2, sef:<br><br>**Ffyrdd preswyl blaenoriaeth uchaf ym mhob Ward (cyfanswm o 16) a Heol Stad Ddiwydiannol Blaenant Amcangyfrif Cyfanswm Cost £602,000.**<br><br>Ffyrdd Preswyl: 16 cynllun – 1 fesul Ward<br><br>Southend a Stryd Walter, Georetown<br>Heol Mount Pleasant, Gogledd Glynebwy<br>Institution Terrace, De Glynebwy<br>Teras Maes-y-Cynw, Llaniledd<br>Heol Jiwbilî a Heol Graig, Six Bells<br>Stryd Powell a Stryd Fawr (rhan), Abertyleri<br>Stryd Coronation, Blaenau<br>Stryd De a Stryd Hereford, Beaufort<br>Cilgant Aneurin, Brynmawr<br>Stryd y Brenin, Cwm<br>Teras Rheilffordd, Sirhywi<br>Lôn Stabl a Parkville, Canol a Gorllewin Tredegar<br>Heol yr Ysgol, Rasa<br>Waunheulog, Nantyglo<br>Stryd Victoria, Cwmtyleri<br>Cylchfan Rhyd y Blew, Badminton<br>Rhoi wyneb newydd ar Stad Ddiwydiannol Blaenant<br><br>**Ynghyd â ffyrdd blaenoriaeth A a B a gwaith diogelwch priffyrdd – Amcangyfrif Cyfanswm Cost £912,000**<br><br>Ffyrdd Blaenoriaeth A a B;<br><br>Gwaith Ailadeiladu Llawn A4048 Heathfield<br>Rhoi wyneb newydd Fffordd Osgoi Cwm A4046<br><br>Gwaith Rheoli Traffig Diogelwch Priffyrdd –<br><br>Rhoi Rhwystrau Diogelwch newydd ar yr A4281 Garnlydan<br>Rhoi Rhwystrau Diogelwch newydd ar yr A467 Abertyleri | |